# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 11 Mehefin 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Clogyn Aur yr Wyddgrug

**C7 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â llywodraeth y DU o safbwynt clogyn aur yr Wyddgrug? (OAQ18225) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Ni chefais unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater hwn, a byddai'n anaddas ac yn ddianghenraid i mi wneud hynny. Gall unrhyw amgueddfa sy'n dymuno benthyg y clogyn aur gan yr Amgueddfa Brydeinig drafod y mater yn uniongyrchol â'r Amgueddfa Brydeinig.

### Annog Busnesau a Chwmnïau yng Nghanol De Cymru

**C11 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae'r Llywodraeth yn annog busnesau a chwmnïau yng Nghanol De Cymru? (OAQ18208) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i greu hinsawdd y gall busnesau drwy Gymru gyfan, gan gynnwys Canol De Cymru, ffynnu ynddi. Mae Llywodraeth y Cynulliad a Thîm Cymru yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i fusnes. Mae rhan helaeth o Ganol De Cymru o fewn ardal Amcan 1 a gall dderbyn y lefelau uchaf o gymorth i gefnogi buddsoddiad ac i greu swyddi. Yr ydym yn ceisio gwella'r gwasanaethau yn gyson ac fe lansiwyd grant buddsoddi'r Cynulliad gennym yn ddiweddar i ddarparu grantiau i fusnesau bach.